**Atodiad C: Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg**

Diben y ffurflen Asesu Effaith ar y Gymraeg yw galluogi Cyngor Rhondda Cynon Taf i ystyried egwyddorion a gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 er mwyn cydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

| **Cam 1 – Casglu Gwybodaeth**<br><br>**NODWCH:** Wrth i chi gwblhau'r asesiad yma, bydd gofyn i chi gyflwyno **tystiolaeth i ategu'ch sylwadau**. Gweler Canllawiau Asesu Effaith ar y Gymraeg i gael rhagor o wybodaeth am ffynonellau data. | |
|---|---|
| **Enw'r Cynnig** | Trefniadaeth Ysgolion Statudol – cynnig i sefydlu Ysgol Gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer plant 3-11 oed yn rhan o ddatblygiad tai Llanilid a'r cynnig i newid cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Dolau o ysgol sydd â dwy ffrwd iaith i ysgol cyfrwng Saesneg. |
| **Adran** | Y Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant - Carfan Ysgolion yr 21ain Ganrif. |
| **Cyfarwyddwr Gwasanaeth** | Andrea Richards |
| **Swyddog sy'n llenwi'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg** | Lisa Howell |
| **E-bost** | Lisa.J.Howell@rctcbc.gov.uk |
| **Ffôn** | Dd/B |
| **Disgrifiad Cryno** | Mae Ysgol Gynradd Dolau yn ysgol gynradd ddwyieithog 3 i 11 oed ar Heol Pen-y-bont, Llanharan, Pont-y-clun gyda lle i 411 o ddisgyblion oedran ysgol statudol (dosbarth derbyn i flwyddyn chwech).<br><br>Yn ôl arolwg cyflwr eiddo'r ysgol a gafodd ei gynnal gan y Cyngor yn 2019, mae Ysgol Gynradd Dolau wedi'i graddio'n B o ran ei chyflwr, a gradd B o ran addasrwydd (lle A yw'r gorau a D yw'r gwaethaf o ran safon). Mae hyn yn golygu, o ran cyflwr, bod Ysgol Gynradd Dolau yn gadarn ac yn weithredol ddiogel, ac o ran addasrwydd, mae Ysgol Gynradd Dolau yn foddhaol ac yn perfformio yn ôl y bwriad.<br><br>Yn Ysgol Gynradd Dolau, ar hyn o bryd mae 311 o ddisgyblion oedran ysgol statudol yn mynychu ffrwd addysg Saesneg yr ysgol a 155 o ddisgyblion oedran ysgol statudol yn mynychu'r ffrwd addysg Gymraeg.<br><br>Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (CBSRhCT) yn cynnig sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer plant 3-11 oed yn rhan o ddatblygiad tai Llanilid a'r cynnig i newid cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Dolau o ysgol sydd â dwy ffrwd iaith i ysgol cyfrwng Saesneg. Cynigir y bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn |

| | |
|---|---|
| | agor erbyn blwyddyn academaidd 2027, gyda lle i 480 o ddisgyblion oedran ysgol statudol a 60 lle i ddisgyblion oed meithrin, gydag Ysgol Gynradd Dolau yn dod yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ar yr un pryd.<br><br>Bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Bydd y ddarpariaeth yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cynnwys:<br><br>• Amgylcheddau dysgu modern a hyblyg i'r holl ddisgyblion, neuadd/ardal giniawa fawr, ardal adnoddau dysgu amlbwrpas a chyfleusterau cwbl hygyrch.<br>• Mannau hyblyg i ganiatáu cyflwyno’r meysydd dysgu a phrofiad yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru.<br>• Ardaloedd dan do ac awyr agored i'r gymuned leol.<br>• Rhywfaint o le ychwanegol ar gyfer ymyraethau anghenion dysgu ychwanegol (ADY).<br>• Mannau awyr agored gwell i gefnogi'r ystod lawn o weithgareddau'r cwricwlwm.<br>• Mesurau rheoli traffig gwell.<br><br>Yn ogystal â hyn, bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn Garbon Sero-Net o ran ei gweithredu. |
| **Dyddiad** | 05.09.2024 |
| **Nodwch ar bwy mae'r cynnig yma'n effeithio: (Defnyddwyr gwasanaethau, gweithwyr, cymuned ehangach)** | • Plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd Dolau ar hyn o bryd<br>• Rhieni a gwarcheidwaid plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd Dolau<br>• Athrawon sy'n gweithio yn Ysgol Gynradd Dolau ar hyn o bryd<br>• Preswylwyr sy’n byw yn nalgylch presennol Ysgol Gynradd Dolau<br>• Preswylwyr sy'n byw yn ardal datblygiad tai newydd Llanilid<br>• Effaith bosibl ar ddisgyblion, staff a rhieni a gwarcheidwaid plant sy’n mynychu Ysgol Llanhari<br>• Effaith bosibl ar ddisgyblion, staff a rhieni a gwarcheidwaid plant sy’n mynychu Ysgol Gyfun y Pant. |
| **Beth yw nodau’r polisi, a sut mae’r rhain yn berthnasol i’r Gymraeg?** | Nod y polisi yma yw dechrau’r ymgynghoriad trefniadaeth ysgolion statudol perthnasol a gofynnol i sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer plant 3 i 11 oed yn rhan o ddatblygiad tai Llanilid a’r cynnig i newid cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Dolau o ddwy iaith i gyfrwng Saesneg, yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2il Argraffiad) (011/2018).<br><br>Mae Ysgol Gynradd Dolau yn ysgol ddwy iaith lle mae gan rieni a gwarcheidwaid y dewis i wneud cais am ffrwd addysg cyfrwng Cymraeg yr ysgol neu’r ffrwd addysg cyfrwng Saesneg. Mae data CYBLD (Ionawr 2024) yn dangos bod 155 o ddisgyblion o’r 466 o ddisgyblion oedran statudol yn yr ysgol yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd gan yr ysgol newydd arfaethedig le ar gyfer 480 o ddisgyblion oedran statudol ynghyd â 60 o ddisgyblion oed meithrin, gan olygu y bydd digon o leoedd yn yr ysgol. Bydd rhieni a gwarcheidwaid sydd efallai'n dymuno symud eu plant o'r ffrwd |

| | |
|---|---|
| | Saesneg bresennol yn Ysgol Gynradd Dolau i'r ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn cael eu cefnogi'n llawn i wneud hynny gyda chymorth gan garfan Trochi yn y Gymraeg y Cyngor.<br><br>Rhaid i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru lunio Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Dogfen gynllunio iaith tymor hir yw'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg sy'n pennu'r cyfeiriad o ran cynllunio, cyflenwi a thwf strategol addysg cyfrwng Cymraeg ac addysgu'r Gymraeg fel pwnc. Nod CBSRhCT trwy'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, a thrwy gynllunio strategol effeithiol a buddsoddi, yw cyfrannu'n sylweddol at gyflawni'r weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 fel sydd wedi'i nodi yn nogfen Cymraeg 2050.<br><br>Mae saith deilliant yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg CBSRhCT sy'n canolbwyntio ar wahanol feysydd addysg. Pe bai’r cynnig yma'n mynd yn ei flaen a theuluoedd o fewn y cyffiniau yn dewis yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd fel eu dewis addysg ar gyfer eu plant, byddai hyn yn cefnogi’r Cyngor i gyflawni dau o’r saith deilliant, sef:<br><br>• Mwy o ddisgyblion tair oed/meithrin yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.<br>• Mwy o ddisgyblion pump oed/dosbarth derbyn yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Y nod yw ymgorffori arferion ac agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg trwy gynllunio pwrpasol sy'n hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith disgyblion yn yr ysgol ac yn y gymuned ehangach. Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, ar draws y cwricwlwm ac mewn cyd-destunau ehangach mewn ysgolion, i sicrhau bod disgyblion ar lwybr parhaus o ran eu dilyniant ieithyddol a bod hyn yn eu helpu wrth bontio rhwng grwpiau blwyddyn. Mae hyn yn cynnig cyfle i bob disgybl fod yn gwbl ddwyieithog ac mae'n alinio â'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Bydd disgyblion sy'n mynychu ffrwd addysg cyfrwng Saesneg Ysgol Gynradd Dolau yn parhau i gael eu cefnogi i gwblhau Gwobr Siarter Iaith 'Cymraeg Campus' i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol. Ar hyn o bryd maen nhw wedi ennill y wobr efydd.<br><br>Mae ystyriaeth wedi’i rhoi i’r effaith bosibl y gallai’r cynnig yma ei chael ar y disgyblion sy’n mynychu’r ffrwd addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gynradd Dolau ar hyn o bryd gan y gallai rhai rhieni/gwarcheidwaid ddewis addysg cyfrwng Saesneg yn lle, a hynny er mwyn aros ar safle’r ysgol bresennol. Gan y bydd yr ysgol newydd arfaethedig yn cael ei hadeiladu gerllaw'r ysgol, dylai hyn negyddu unrhyw effaith negyddol gan na fydd yn rhaid i rieni/gwarcheidwaid deithio llawer ymhellach i gael addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol newydd arfaethedig. Bydd llwybr cerdded diogel tua 150 metr o hyd yn cael ei greu i gysylltu safleoedd yr ysgol gyda’r ddwy ysgol yn cael y cyfle i wneud y mwyaf o’r cyfleusterau allanol newydd a fydd yn cael eu cynnwys gyda’r adeilad ysgol newydd arfaethedig.<br><br>Mae'r niferoedd sy'n mynychu'r ffrwd addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gynradd Dolau ar hyn o bryd yn isel o gymharu â'r niferoedd yn y ffrwd addysg cyfrwng Saesneg. O’r herwydd, bydd gwaith marchnata a hyrwyddo’r ysgol newydd arfaethedig yn flaenoriaeth allweddol pe bai’r cynnig yma'n mynd yn ei flaen. Mae cwmnïau datblygu tai sydd ar hyn o |

| | |
|---|---|
| | bryd yn adeiladu datblygiadau tai ar raddfa fawr yn yr ardal yma eisoes wedi derbyn adnoddau sy'n cael eu rhoi i ddarpar brynwyr newydd yn eu pecynnau gwerthu posibl. Mae'r adnoddau'n cynnwys:<br><br>• Llyfryn 'Bod yn Ddwyieithog' y Cyngor sy'n cynnwys gwybodaeth am addysg cyfrwng Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf ac yn mynd i'r afael â rhai o'r pryderon sydd gan rai rhieni a gwarcheidwaid ynghylch dewis addysg cyfrwng Cymraeg.<br>• Taflenni Trochi yn y Gymraeg y Cyngor sy'n cynnwys gwybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael i ddisgyblion Blynyddoedd 2 i 6 sy'n dymuno newid o addysg cyfrwng Saesneg i addysg cyfrwng Cymraeg.<br><br>Bydd llenwi'r lleoedd gwag yn yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd arfaethedig yn flaenoriaeth er mwyn sicrhau ein bod ni'n bodloni ein rhwymedigaethau statudol yn unol â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac yn gweithio tuag at gyflawni'r targedau sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i gynyddu nifer y disgyblion sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, bydd carfan Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor yn gweithio gyda'r datblygwyr tai i roi ymgyrch hyrwyddo ar waith i hyrwyddo'r ysgol i'r prynwyr tai. Mae modd i hyn gynnwys:<br><br>• Creu taflenni hyrwyddo i'w cynnwys ym mhecynnau gwerthu darpar brynwyr newydd a'u dosbarthu i'r tai ar y datblygiadau newydd.<br>• Meithrin perthynas rhwng pennaeth yr ysgol newydd arfaethedig a'r datblygwyr tai fel bod modd i unrhyw brynwyr tai newydd gael eu cysylltu'n uniongyrchol â'r ysgol i drefnu ymweliadau â'r ysgol ac ati.<br><br>Bydd y Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r garfan marchnata fewnol i wneud y mwyaf o bob dull effeithiol o farchnata a hyrwyddo er mwyn sicrhau bod yr ysgol newydd a manteision addysg cyfrwng Cymraeg yn gyffredinol yn cael eu marchnata mor eang â phosibl yn yr ardal benodol yma o'r fwrdeistref sirol. |
| **Pwy fydd yn elwa? / Oes modd i'r polisi effeithio ar grwpiau Cymraeg?<br>Os felly, rhestrwch nhw yma.** | • Plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd Dolau ar hyn o bryd<br>• Rhieni a gwarcheidwaid plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd Dolau<br>• Athrawon sy'n gweithio yn Ysgol Gynradd Dolau ar hyn o bryd<br>• Preswylwyr sy'n byw yn nalgylch presennol Ysgol Gynradd Dolau<br>• Preswylwyr sy'n byw yn ardal datblygiad tai newydd Llanilid<br>• Effaith bosibl ar ddisgyblion, staff a rhieni a gwarcheidwaid plant sy'n mynychu Ysgol Llanhari<br>• Effaith bosibl ar ddisgyblion, staff a rhieni a gwarcheidwaid plant sy'n mynychu Ysgol Gyfun y Pant.<br><br>Dylai unrhyw effaith ar grwpiau iaith Gymraeg fod yn gadarnhaol gan fod y cynnig yma'n ceisio adeiladu ysgol cyfrwng Cymraeg newydd sbon gyda chyfleusterau o'r radd flaenaf, gan ddiogelu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn yr ardal yma o'r fwrdeistref sirol. Bydd trosglwyddo disgyblion sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn |

| | |
|---|---|
| | o bryd yn Ysgol Gynradd Dolau i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn rhoi cyfle i ragor o ddisgyblion gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn amgylchedd sy'n addas i ddysgu ac addysgu yn yr 21[ain] ganrif. Er mwyn sicrhau y bydd modd bodloni'r galw am leoedd ysgol yn y blynyddoedd i ddod, bydd capasiti'n cael ei gynnwys yn yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd. Bydd carfan Ysgolion yr 21[ain] Ganrif y Cyngor yn gweithio'n agos gyda datblygwyr tai yn yr ardal a staff yr ysgol newydd i wneud y mwyaf o'r holl ddulliau marchnata sydd ar gael i hyrwyddo'r ysgol newydd ac addysg cyfrwng Cymraeg yn gyffredinol i deuluoedd sy'n byw yn yr ardal yma o'r fwrdeistref sirol. |
| **Proffil ieithyddol cyfredol yr ardal(oedd) ddaearyddol dan sylw** | Bob deng mlynedd mae'r DU yn neilltuo un diwrnod ar gyfer y Cyfrifiad, sy'n cyfri'r holl bobl ac aelwydydd yma. Mae'r Cyfrifiad yn ffynhonnell allweddol o wybodaeth am nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg.<br><br>Mae ffigurau Cyfrifiad 2021 ynghylch y Gymraeg yn dangos bod canran siaradwyr Cymraeg ledled Cymru wedi gostwng i 17.8%. Serch hynny, gwelodd Rhondda Cynon Taf gynnydd bychan gyda chanran poblogaeth y Fwrdeistref Sirol sy'n gallu siarad Cymraeg yn codi o 12.3% i 12.4%. Mae data'n dangos bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf wedi cynyddu o 27,779 i 28,556, sef cynnydd o 2.8%. Yn wir, Rhondda Cynon Taf oedd un o bedwar Awdurdod Lleol yng Nghymru yn unig i weld cynnydd yng nghanran ei siaradwyr Cymraeg. Y lleill oedd Caerdydd, Bro Morgannwg a Merthyr Tudful. Mae pob un o'r awdurdodau lleol yma'n fwrdeistrefi sirol cyfagos. Efallai bod hynny'n dangos bod ein rhanbarth ni'n gweld rhai tueddiadau cadarnhaol o ran cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg, ac y gallai'r cynnydd yma arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Wrth i ddata pellach, manylach, o'r Cyfrifiad ar gyfer Rhondda Cynon Taf ddod i'r fei, (e.e. data Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is), bydd angen i ni ystyried pa effaith y gallai ei chael ar y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu.<br><br>Mae cyflwyno'r Siarter Iaith (Siarter Iaith/Cymraeg Campus) wedi galluogi ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg i hybu a chynyddu defnydd disgyblion o'r Gymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol. Mae'r rhaglen yn rhan o gyfres o raglenni gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at gynyddu defnydd plant a phobl ifainc o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol ac yn cael ei gyflwyno ym mron pob ysgol yn CBSRhCT mewn partneriaeth â Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (y Consortiwm). Mae'n offeryn pwysig i gynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yng Nghymru, ni waeth beth fo'r cefndir ieithyddol, ac yn cyfrannu at strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Mae Ysgol Gynradd Dolau wedi ymgysylltu'n llawn â'r rhaglen. Mae'r ffrwd addysg cyfrwng Cymraeg wedi derbyn eu gwobrau efydd ac arian 'Siarter Iaith' a bellach yn gweithio tuag at ennill y wobr aur. Mae'r ffrwd addysg cyfrwng Saesneg wedi derbyn gwobr efydd 'Cymraeg Campus' a bellach yn gweithio tuag at ennill eu gwobr arian.<br><br>Yn rhan o ymarfer casglu data a gafodd ei gynnal ym mis Gorffennaf 2023 wrth gwblhau Adroddiad Adolygu Blynyddol y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, cafodd gwerthusiad ei gynnal o'r rhaglen 'Cymraeg Campus' mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Roedd canfyddiadau'r gwerthusiad yma'n dangos yr effaith gadarnhaol y mae'r rhaglen wedi'i chael ar y defnydd cynyddol o'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. O'r ysgolion y cysylltwyd â nhw yn rhan o'r ymarfer yma, soniodd pob un ohonyn nhw am gynnydd yn y defnydd o Gymraeg achlysurol drwy'r ysgol gyda |

| | |
|---|---|
| | mwy o blant yn chwarae gemau ar y maes chwarae trwy gyfrwng y Gymraeg a rhagor o wasanaethau yn cael eu cynnal gyda ffocws ar yr iaith Gymraeg, hanes a threftadaeth. Mae ffrydiau addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg Ysgol Gynradd Dolau yn cwblhau'r rhaglenni Siarter Iaith/Cymraeg Campus, yn y drefn honno. Mae'r ffrwd addysg cyfrwng Cymraeg wedi ennill gwobr arian 'Siarter Iaith' a bellach yn gweithio tuag at ennill y wobr aur. Mae'r ffrwd addysg cyfrwng Saesneg wedi ennill y wobr efydd a bellach yn gweithio tuag at ennill y wobr arian. I ennill y wobr efydd, rhaid i'r ysgol ddangos y canlynol:<br><br>• Mae'r disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn achlysurol wrth fynegi anghenion sylfaenol yn y neuadd ginio.<br>• Mae gan y Criw Cymraeg arddangosfa ryngweithiol mewn ardal gymunedol i hyrwyddo ymadrodd yr wythnos.<br>• Mae'r Criw Cymraeg yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.<br>• Mae staff addysgu a staff cymorth yn defnyddio Cymraeg achlysurol i roi gorchmynion syml y tu allan i'r ystafell ddosbarth.<br>• Mae disgyblion yn cyfarch staff yn Gymraeg.<br>• Mae'r ysgol yn cynnal prynhawn Cymraeg.<br>• Mae disgyblion yn deall ac yn ymateb i gwestiynau a gorchmynion Cymraeg y tu allan i'r dosbarth.<br><br>Ddylai'r cynnig yma ddim cael effaith negyddol ar ymgysylltiad parhaus Ysgol Gynradd Dolau â'r rhaglen gan nad oes gan bob ysgol cyfrwng Saesneg arall sy'n ymwneud â'r rhaglen gefnogaeth staff a disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn ddyddiol ac maen nhw wedi gweithio'n llwyddiannus drwy'r graddau dyfarnu. Ym mis Gorffennaf 2024, roedd 59 ysgol gynradd cyfrwng Saesneg wedi ennill y wobr efydd, 21 wedi ennill y wobr arian a 3 wedi ennill y wobr aur. Gallai effaith colli staff sy'n siarad Cymraeg yn yr ysgol gael ei negyddu wrth i staff ymgysylltu â chyfleoedd datblygiad proffesiynol Cymraeg sydd ar gael trwy Wasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De. Gallai hyn fod trwy achlysuron dysgu proffesiynol, rhaglenni, aseiniadau ac adnoddau sydd ar gael neu drwy gymorth pwrpasol. Mae hyn oll ar gael i ysgolion heb unrhyw gost i'r ysgol.<br><br>Bydd cyflwyno'r rhaglen yma'n barhaus yn cefnogi targed Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 a'r targedau a nodir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg newydd y Cyngor (2022 i 2032).<br><br>Mae CBSRhCT yn cydnabod pwysigrwydd trochi yn y Gymraeg i ddisgyblion sy'n dymuno pontio o addysg cyfrwng Saesneg i'r Gymraeg. O fis Medi 2023, cafodd darpariaeth Trochi yn y Gymraeg y Cyngor ei sefydlu i gefnogi hwyrddyfodiaid neu newydd-ddyfodiaid i'r Gymraeg i'w helpu i ddysgu sgiliau Cymraeg yn gyflym fel bod modd iddyn nhw integreiddio i'r ystafell ddosbarth cyfrwng Cymraeg. Mae'r ddarpariaeth wedi mabwysiadu model teithio peripatetig, lle mae'r athro/athrawes trochi yn teithio i ysgolion y disgyblion sy'n defnyddio'r gwasanaeth i drochi disgyblion yn y Gymraeg. Mae'r ddarpariaeth yn parhau i esblygu ac mae'r galw am y gwasanaeth yn parhau i dyfu. Pan fydd galw am |

| | |
|---|---|
| | y gwasanaeth yn fwy na'r capasiti, bydd y Cyngor yn ystyried creu Uned Drochi yn y Gymraeg sy'n benodol ar gyfer hwyrddyfodiaid ochr yn ochr â'i raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Band B. Os bydd y cynnig yma'n mynd rhagddo, bydd unrhyw rieni/gwarcheidwaid sydd â diddordeb mewn defnyddio'r ddarpariaeth yma'n cael yr wybodaeth berthnasol ac yn cael eu cefnogi drwy gydol y broses yma. |
| **Data neu ymchwil perthnasol arall** | **Categori iaith a safonau ysgolion amgen / cyfagos**<br><br>Mae gan CBSRhCT un deg saith o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol er mwyn sicrhau mynediad i bawb. Mae dwy ysgol bob oed ar gyfer disgyblion 3 i 19 oed, sef Ysgol Garth Olwg ac Ysgol Llanhari, dwy ysgol gynradd ddwy iaith i blant 3 i 11 oed, sef Ysgol Gynradd Dolau ac Ysgol Gynradd Heol y Celyn a 13 ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg i blant 3 i 11 oed. Mae pob disgybl sy'n mynychu'r ysgolion yma yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. O fis Medi 2024, bydd yr ysgol ddwy iaith yn Ysgol Gynradd Heol y Celyn yn trosglwyddo i fod yn gyfan gwbl cyfrwng Cymraeg dan yr enw Ysgol Gynradd Gymraeg Awel Taf. Pe bai'r cynnig yma'n mynd yn ei flaen, byddai hyn yn cynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn CBSRhCT ac yn y pen draw yn cynyddu'r cynnig addysg cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i ddisgyblion ar draws y fwrdeistref sirol.<br><br>Mae 3 ysgol gynradd cyfrwng Saesneg gerllaw Ysgol Gynradd Dolau:<br><br>• Ysgol Gynradd Llanharan (1.3 milltir).<br>• Ysgol Gynradd Brynnau (2.4 milltir).<br>• Ysgol Gynradd Llanhari (2.4 milltir).<br><br>Mae hyn yn dangos digonolrwydd addysg gynradd cyfrwng Saesneg yn yr ardal yma o'r fwrdeistref sirol, gan orbwyso'r addysg cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i blant a'u teuluoedd sy'n byw yn yr ardal yma o'r fwrdeistref sirol.<br><br>Yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg agosaf at Ysgol Gynradd Dolau yw Ysgol Llanhari sydd 2.6 milltir i ffwrdd o'r ysgol ac Ysgol Gynradd Gymraeg Gymunedol (YGGG) Llantrisant sydd 5.6 milltir i ffwrdd o'r ysgol. Mae Ysgol Llanhari yn ysgol cyfrwng Cymraeg 3 – 19 oed gyda chyfleuster gofal plant pwrpasol ar safle'r ysgol. Mae YGGG Llantrisant yn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg 3 – 11 oed sy'n bwydo'r sector addysg uwchradd yn Ysgol Llanhari.<br><br>Mae'n ddyletswydd statudol ar bob Cyngor yng Nghymru i ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion i'w hysgolion addas agosaf os ydyn nhw'n byw pellter sydd y tu hwnt i 'bellter cerdded' diogel o'r ysgol honno. Mae'r gyfraith yn diffinio 'pellter cerdded' diogel yn ddwy filltir i ddisgyblion oed ysgol statudol sy'n derbyn addysg gynradd a thair milltir i bob disgybl o oed ysgol statudol (blwyddyn 7 i 11) sy'n derbyn addysg uwchradd. |

| | |
|---|---|
| | Mae'r Cyngor wedi defnyddio'r disgresiwn sydd wedi'i roi iddo gan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, a chynnig darpariaeth fwy hael i ddisgyblion. Yn dilyn ymarfer ymgynghori cyhoeddus diweddar a gychwynnwyd gan Gabinet y Cyngor, mewn perthynas â Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol newydd arfaethedig ar gyfer y Cyngor, yr wybodaeth isod yw'r wybodaeth berthnasol mewn perthynas â'r cynnig:<br><br>• Mae'r maen prawf ar gyfer pellter cerdded i ddisgyblion oed ysgol statudol sy'n derbyn addysg gynradd yn eu hysgol addas agosaf wedi cael ei osod ar 1½ milltir, yn hytrach na 2 filltir fel sy'n ofynnol gan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.<br>• Mae cludiant am ddim i'w hysgol addas agosaf, lle mae lleoedd ar gael, yn cael ei ddarparu i ddisgyblion sy'n bodloni'r maen prawf 1½ milltir o ddechrau'r Cyfnod Sylfaen, yn hytrach nag o ddechrau ysgol statudol fel sy'n ofynnol gan y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.<br>• Mae'r term 'ysgol addas' yn cyfeirio at ddalgylch ysgol cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, ysgol cyfrwng Cymraeg a Saesneg, ysgol prif ffrwd wirfoddol gymorthedig (yr Eglwysi) neu ysgol/dosbarth arbennig fel y bo'n briodol.<br>• 3 milltir yw'r maen prawf ar gyfer pellter cerdded i ddisgyblion oedran ysgol statudol sy'n cael addysg uwchradd, yn unol â meini prawf pellter statudol Llywodraeth Cymru.<br><br>Ar ddechrau blwyddyn academaidd 2024 (data o 04/09/2024), mae gan 15 o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Dolau yr hawl i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol.<br><br>Mae disgyblion sy'n mynychu ffrwd addysg cyfrwng Cymraeg Ysgol Gynradd Dolau ac fel y cyfryw, disgyblion yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd arfaethedig, yn trosglwyddo i addysg uwchradd yn Ysgol Llanhari (2.6 milltir i ffwrdd). Mae disgyblion sy'n mynychu'r ffrwd addysg cyfrwng Saesneg yn Ysgol Gynradd Dolau yn trosglwyddo i addysg uwchradd yn Ysgol Gyfun y Pant, sydd 3.7 milltir i ffwrdd o'r ysgol, felly fyddai dim angen i ddisgyblion sy'n byw yn ardal yr ysgol newydd arfaethedig deithio ymhellach i dderbyn addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.<br><br>Bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd arfaethedig yn cael ei hadeiladu gerllaw Ysgol Gynradd Dolau, tua 0.4 milltir o Ysgol Gynradd Dolau sy'n golygu y bydd Ysgol Llanhari o dan y pellter o 3 milltir sy'n cael ei ganiatáu yn y meini prawf cymhwyster ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol. Bydd Ysgol Gyfun Y Pant dros y pellter o 3 milltir, sy'n golygu y byddan nhw'n gymwys ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol a allai gael effaith negyddol ar y broses pontio o addysg gynradd i addysg uwchradd. Sylwch, mae hyn wedi'i amcangyfrif ar sail y pellter o ysgol bresennol Ysgol Gynradd Dolau, bydd y gwir bellter yn cael ei bennu ar sail cyfeiriad y cartref a all amrywio'r pellter rhwng cartrefi'r teuluoedd a'r ysgolion.<br><br>Y lleoliad gofal plant a blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg agosaf yw Cylch Meithrin Flourish Ysgol Dolau, sydd ar safle ysgol Ysgol Gynradd Dolau. Mae'r lleoliad yn cynnal 2 sesiwn yr wythnos ynghyd â sesiwn Cylch Ti a Fi bob bore |

| | |
|---|---|
| | Mawrth (grŵp rhieni a phlant bach). Mae gan Ysgol Llanhari hefyd Gylch Meithrin Llanhari ar safle'r ysgol sy'n cynnig y dewis o sesiynau meithrin amser llawn neu ofal sesiynol, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Yn ogystal â hyn, caiff sesiynau Cylch Ti a Fi eu cynnal bob bore Gwener. Bydd adeilad yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd arfaethedig yn cynnwys cyfleuster gofal plant pwrpasol i ddarparu gofal plant cyfrwng Cymraeg a darpariaeth y blynyddoedd cynnar ar safle'r ysgol, gan gefnogi'r continwwm i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg. Bydd y darparwr presennol yn Ysgol Gynradd Dolau yn cael ei annog a'i gefnogi i barhau i gyflwyno'r un lefel o ddarpariaeth i gryfhau'r cynnig gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn yr ardal yma o'r fwrdeistref sirol. Byddwn ni'n gweithio'n agos gyda'r Mudiad Meithrin i farchnata a hyrwyddo'r ddarpariaeth sydd ar gael yn yr ardal yma o'r fwrdeistref sirol yn effeithiol<br><br>Mae CBSRhCT yn cydnabod pwysigrwydd targed Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a pha mor ganolog yw'r system addysg yng Nghymru i gyflawni ei gweledigaeth. Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd CBSRhCT (2022 i 2032) yn nodi gweledigaeth ddeng mlynedd ar gyfer cynyddu a gwella cynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn cynyddu ei gyfraniad i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.<br><br>Yn unol â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (2022-2032), bydd CBSRhCT yn parhau i sicrhau bod buddiannau addysg cyfrwng Cymraeg a'r Gymraeg yn cael eu hyrwyddo i rieni a gwarcheidwaid o'r blynyddoedd cynnar cychwynnol hyd at addysg gynradd ac uwchradd, ac ymlaen i addysg uwch ac addysg bellach i bob disgybl, beth bynnag fo'u hanghenion dysgu. Caiff hyn ei wneud trwy hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn gyffredinol yn barhaus trwy rannu fideos hyrwyddo sydd wedi'u paratoi. Mae'r fideos hyn yn cynnwys hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn gyffredinol, addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag ADY, trefniadau pontio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd ac addysg ôl-16 cyfrwng Cymraeg. Mae'r fideos ar gael ar wefan y Cyngor ac wedi'u rhannu ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol corfforaethol y Cyngor dros fis Awst a Medi 2024. Yn ogystal â'r adnoddau hyn, mae'r Mudiad Meithrin wedi rhannu cyfres o fideos yn canolbwyntio ar hyrwyddo darpariaeth gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg, gan fynd i'r afael â rhai o'r pryderon sydd gan rieni/gwarcheidwaid ynghylch gwneud y dewis i fynychu darpariaeth Gymraeg. Bydd yr holl fideos yma'n cael eu defnyddio mewn gwahanol ymgyrchoedd marchnata ar wahanol adegau yn ystod y flwyddyn academaidd yma. Mae Swyddog Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Arweinydd Trochi yn y Gymraeg y Cyngor yn mynychu achlysuron cyhoeddus megis Picnic y Tedis a Pharti Ponty i ddosbarthu llyfrynnau 'Bod yn Ddwyieithog' y Cyngor a thaflenni trochi yn y Gymraeg i'r cyhoedd. Yn ogystal, mae Menter Iaith a Chymraeg i Blant ar hyn o bryd yn gweithio gyda'r Cyngor i gynnal achlysuron Cymraeg newydd wedi'u targedu at blant cyn oed ysgol a'u teuluoedd. Mae mynychu'r mathau hyn o achlysuron yn rhoi cyfleoedd amhrisiadwy i siarad yn uniongyrchol â theuluoedd a allai fod yn ystyried addysg cyfrwng Cymraeg ond sydd hefyd â rhai pryderon neu gwestiynau. Mae llyfrynnau 'Bod yn Ddwyieithog' y Cyngor hefyd wedi'u dosbarthu i garfan Ymwelwyr Iechyd y GIG sy'n rhoi copïau yn y pecynnau babanod newydd, gwasanaethau cofrestru genedigaethau sy'n rhoi copïau i rieni/gwarcheidwaid wrth iddyn nhw gofrestru genedigaethau newydd ac i ddatblygwyr tai lleol yn yr ardal yma o'r fwrdeistref sirol lle mae llawer o ddatblygiadau newydd ar y gweill. |

**Beth yw categori iaith yr ysgol sydd wedi'i gynnwys yn y cynnig yma?**

Mae Ysgol Gynradd Dolau yn ysgol gynradd ddwy iaith gyda dwy ffrwd addysg ar wahân. Rhaid i rieni a gwarcheidwaid wneud cais am y ffrwd o'u dewis, naill ai addysg cyfrwng Cymraeg neu addysg cyfrwng Saesneg. Bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd arfaethedig yn gyfan gwbl cyfrwng Cymraeg, ac mae'r cynnig yn cynnwys cynlluniau i newid Ysgol Gynradd Dolau i leoliad sy'n gyfan gwbl cyfrwng Saesneg.

**Pa gyfleusterau sydd ar gael i aelodau o'r gymuned i ddysgu Cymraeg neu ymgymryd â gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg?**

Mae gan Ysgol Gynradd Dolau le yn yr ysgol y byddai modd ei ddefnyddio at ddefnydd y gymuned i wahodd grwpiau Cymraeg i gynnal sesiynau ac achlysuron i gynyddu gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ardal yma o'r fwrdeistref sirol. Yn ogystal â hyn, bydd gan yr adeilad ysgol newydd arfaethedig gyfleusterau cymunedol pwrpasol y byddai modd i grwpiau a sefydliadau cymunedol eu defnyddio hefyd. Bydd yr adeilad yn cael ei ddylunio i hwyluso defnydd diogel o ardaloedd gan y gymuned wrth hefyd gynnal gwahanu oddi wrth weddill yr ysgol. Bydd pennaeth yr ysgol newydd arfaethedig yn cael ei annog a'i gefnogi'n llawn i ddefnyddio'r cyfleusterau hyn i gynyddu cyfranogiad yn y Gymraeg. Bydd modd iddo/iddi gynnig y cyfle i rieni a gwarcheidwaid ac aelodau eraill o'r gymuned fynychu dosbarthiadau Cymraeg a/neu gyfleoedd eraill i'r gymuned gael cyfathrebu yn Gymraeg, fel sydd wedi'i roi ar waith yn llwyddiannus mewn ysgolion newydd eraill. Bydd hyn yn cefnogi targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 a'r targedau sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg CBSRhCT.

**Ym mha ffordd y byddai modd cefnogi ymgysylltiad rhieni a gwarcheidwaid a disgyblion ag unrhyw ysgol amgen ac unrhyw welliant iaith penodol y mae'r ysgol yn ei gynnig?**

Mae CBSRhCT wedi paratoi llyfryn 'Bod yn Ddwyieithog' sy'n cynnwys gwybodaeth am fanteision derbyn addysg ddwyieithog, gan amlinellu'r llwybr i addysg cyfrwng Cymraeg ac ateb rhai cwestiynau cyffredin ynghylch yr opsiwn o ddewis addysg cyfrwng Cymraeg. Caiff y llyfryn ei ddosbarthu trwy ddarpariaethau Dechrau'n Deg, gwasanaethau cofrestru genedigaethau a lleoliadau gofal plant. Mae'r llyfrynnau wedi'u darparu i ddatblygwyr tai yn yr ardal yma o'r fwrdeistref sirol lle mae datblygiadau tai mawr ar y gweill, i'w rhoi i unrhyw ddarpar brynwyr newydd yn eu pecynnau gwerthu. Yn ogystal â hyn, mae Swyddog Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor a'r garfan Trochi yn y Gymraeg yn dosbarthu adnoddau i'r cyhoedd mewn achlysuron lleol. Mae hyn yn cynnwys achlysuron ledled RhCT fel Picnic y Tedis a Pharti Ponty, sydd ill dau yn cael eu cynnal ym Mharc Ynysangharad, Pontypridd, yn flynyddol. Yn fwy diweddar, trefnodd sefydliadau Cymraeg lleol achlysuron am ddim i blant cyn oed ysgol a theuluoedd. Cafodd achlysur cychwynnol ei gynnal yn Nhrebanog ym mis Mawrth 2024 a chafodd achlysur arall ei gynnal yng Nghanolfan Hamdden Llantrisant ym mis Mehefin 2024. Yn dilyn llwyddiant yr achlysuron hyn, mae sefydliadau Cymraeg lleol yn cydweithio

| | |
|---|---|
| | â'r Cyngor i ddatblygu'r achlysuron hyn ymhellach ar gyfer y flwyddyn academaidd i ddod. Mae cynlluniau ar y gweill ar hyn o bryd ar gyfer 2024-25 gyda'r nod o gynnal 6 achlysur ym mhob ardal o'r fwrdeistref sirol rhwng Hydref 2024 a Mehefin 2025. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i bawb yn RhCT fynychu eu hachlysur lleol a chael gwybodaeth am yr opsiynau a'r cymorth sydd ar gael iddyn nhw ar y daith i ddod yn ddwyieithog. Er mwyn cynyddu ymgysylltiad â'r achlysuron hyn, byddan nhw'n cael eu marchnata ar draws llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a gwefan y Cyngor a gwefan Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Cyngor. Byddwn ni'n cysylltu â'r holl grwpiau babanod a phlant bach hysbys sydd wedi'u targedu at blant 0 – 3 oed ac yn rhoi gwybodaeth iddyn nhw am yr achlysuron i annog presenoldeb yn yr achlysuron<br><br>Mae Llyfryn 'Dechrau'r Ysgol' CBSRhCT hefyd yn darparu ystod o wybodaeth i rieni a gwarcheidwaid, gan gynnwys cyngor ar ddewis ysgol, gwybodaeth am ddarpariaeth cludiant o'r cartref i'r ysgol a chyfeirlyfr o ysgolion. Mae diwygiadau wedi'u gwneud i'r llyfryn 'Dechrau yn yr Ysgol' i gynnwys gwybodaeth am addysg cyfrwng Cymraeg yn RhCT, ynghyd â gwybodaeth am y ddarpariaeth newydd o ran trochi yn y Gymraeg, gan sicrhau bod yr wybodaeth yma ar gael yn rhwydd i rieni a gwarcheidwaid. Bydd hwn ar gael i'w weld yn y llyfryn newydd ar gyfer y flwyddyn academaidd sydd i ddod (2024-25).<br><br>Mae Cymraeg i Blant yn cynnal sesiynau grŵp babanod am ddim bob wythnos ledled y fwrdeistref sirol. Mae'r sesiynau hyn yn ddwyieithog ac yn cynnwys tylino babi, ioga i fabanod ac amser rhigwm Cymraeg. Mae'r ddarpariaeth yma'n sicrhau bod rhieni/gwarcheidwaid yn derbyn negeseuon cynnar allweddol yn ystod y cyfnod cyn-geni ac ar ôl cael babi, ac yn cael gwybod am y llwybr dwyieithog sydd ar gael i'w plentyn a'r cynnig cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn lleol. Mae'r grŵp babanod Cymraeg i Blant agosaf yn cael ei gynnal yn Llyfrgell Pont-y-clun, Pont-y-clun bob dydd Iau am 10.30am.<br><br>Mae Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid y Cyngor yn gweithio gyda sefydliadau Cymraeg megis Menter Iaith a'r Urdd i gyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth iaith pwrpasol i bobl ifainc, gan dynnu sylw at bwysigrwydd meddu ar y sgil o allu cyfathrebu yn Gymraeg. Mae'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid hefyd yn cyflwyno achlysuron cymdeithasol a gweithgareddau i bobl ifainc trwy gyfrwng y Gymraeg sy'n cynnwys cyfleoedd preswyl, eisteddfodau, chwaraeon ac achredu.<br><br>Ym mis Gorffennaf 2022 cymeradwyodd Llywodraeth Cymru gyllid i sefydlu darpariaeth trochi yn y Gymraeg ar gyfer hwyrddyfodiaid i'r iaith. Mae'r ddarpariaeth, sydd bellach wedi'i sefydlu ac yn ennill momentwm ledled RhCT, yn mabwysiadu model peripatetig o gyflwyno gyda'r athro trochi yn ymgysylltu â disgyblion sy'n defnyddio'r gwasanaeth i gael eu trochi yn y Gymraeg. Pan fydd galw am y gwasanaeth yn fwy na'r capasiti, bydd y Cyngor yn ystyried creu Uned Drochi yn y Gymraeg sy'n benodol ar gyfer hwyrddyfodiaid ochr yn ochr â'i raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Band B. |

| | |
|---|---|
| | **Gwybodaeth ynglŷn â sut mae'r cynnig yn cyd-fynd â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac unrhyw gamau gweithredu y bydd eu hangen yn y dyfodol o ganlyniad i'r newid er mwyn parhau i gydymffurfio â'r cynllun neu gyrraedd targedau'r cynllun.**<br><br>Mae CBSRhCT o'r gred y dylai pob disgybl gael cyfleoedd priodol i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd i'w galluogi i ddatblygu'r hyder i ddefnyddio'r ddwy iaith mewn bywyd bob dydd er mwyn bodloni gofynion yr 21ain Ganrif.<br><br>Mae CBSRhCT yn cydnabod pwysigrwydd targed Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a pha mor ganolog yw'r system addysg yng Nghymru i gyflawni ei gweledigaeth. Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd CBSRhCT (2022-2032) yn nodi gweledigaeth ddeng mlynedd ar gyfer cynyddu a gwella cynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn y fwrdeistref sirol er mwyn cynyddu ei gyfraniad i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Mae'n adeiladu ar waith y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg blaenorol (2017 i 2022) ac yn nodi cynllun gweithredu sy'n dangos sut rydyn ni'n bwriadu cyflawni ein gweledigaeth ddeng mlynedd.<br><br>Pe bai'r cynnig yma'n mynd yn ei flaen, byddai creu ysgol cyfrwng Cymraeg newydd sbon yn yr ardal yma o'r fwrdeistref sirol yn cefnogi deilliant 1 a 2 o'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg sy'n anelu at gynyddu nifer y disgyblion oed meithrin a derbyn sy'n derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Er y bydd y newid arfaethedig ar gyfer Ysgol Gynradd Dolau i fod yn ysgol cyfrwng Saesneg yn unig arwain at gynyddu'r capasiti yn yr ysgol a chynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Saesneg sydd ar gael, bydd agor yr ysgol newydd yn diogelu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael gan nad yw hyn yn rhywbeth mae modd i ni ei wneud ar hyn o bryd oherwydd rhwymedigaethau statudol y Cod Derbyn i Ysgolion. Bydd yr ysgol newydd arfaethedig yn cael ei hannog a'i chefnogi i ymuno â rhaglen 'Siarter Iaith' a fydd yn cefnogi deilliant rhif 5 y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg drwy ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol.<br><br>I gyflawni'n llwyddiannus unrhyw un o'r deilliannau sydd wedi'u hamlinellu yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, mae'n allweddol codi proffil y Gymraeg ac addysg Gymraeg ar draws y fwrdeistref sirol a newid agweddau pobl tuag at yr iaith. I gyflawni hyn, mae angen marchnata a hyrwyddo addysg Gymraeg ar y cyfan yn effeithiol. Dros y misoedd diwethaf, mae CBSRhCT wedi paratoi ystod o fideos hyrwyddo sy'n ymdrin â saith deilliant y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae'r fideos hyn yn cynnwys recriwtio athrawon, trochi yn y Gymraeg, addysg ADY cyfrwng Cymraeg, addysg ôl-16 cyfrwng Cymraeg a phontio o addysg gynradd i addysg uwchradd. Mae deunydd wedi'i baratoi sy'n cynnwys ymarferwyr sy'n gweithio mewn ysgolion yn RhCT ar hyn o bryd, cyfweliadau gyda phenaethiaid ac athrawon, cyfweliadau gyda rhieni a chyfweliadau gyda disgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd. Bydd y fideos hyn yn rhan o ymgyrch farchnata ehangach wedi'i thargedu sy'n canolbwyntio'n benodol ar niferoedd cynyddol yn y sector addysg cyfrwng Cymraeg. Cafodd y fideos hyn eu lansio yn ystod achlysur yn yr Eisteddfod Genedlaethol a gafodd ei gynnal yn RhCT ym mis Awst 2024. Ers hynny, mae'r fideos wedi'u rhannu ar |

| | |
|---|---|
| | wefan gorfforaethol y Cyngor ac ar draws llwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Ar gyfer y cyfnod o fis Medi i fis Tachwedd 2024, bydd ymgyrch farchnata yn cael ei rhoi ar waith ar draws llwyfannau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor i godi ymwybyddiaeth o addysg cyfrwng Cymraeg yn RhCT.<br><br>Mae gan fwyafrif yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn y fwrdeistref sirol ddigon o leoedd i ateb y galw. Yn unol ag amcanion a thargedau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, dros y blynyddoedd i ddod mae cynyddu nifer y disgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor, gan sicrhau bod nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion yn lleihau. Gobeithiwn gyflawni’r amcanion hyn trwy farchnata a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn effeithiol a chodi proffil yr iaith yn gyffredinol ar draws y fwrdeistref sirol er mwyn newid agweddau pobl tuag at yr iaith. Wedi dweud hynny, mae yna nifer o ysgolion lle mae'r galw bron yn fwy na'r lleoedd sydd ar gael. O'r herwydd, mae CBSRhCT wedi neu wrthi'n cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion hyn drwy nifer o brosiectau a chynigion. Mae prosiectau a fydd yn mynd i'r afael â'r mater yma'n cynnwys ehangu Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr a gafodd ei gwblhau'n ddiweddar, gan gynnwys cyfleuster gofal plant cyfrwng Cymraeg pwrpasol; yn ogystal â'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn Rhydfelen (Ysgol Gynradd Gymraeg Awel Taf) ar gyfer disgyblion yn Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton a'r ffrwd Gymraeg yn Ysgol Gynradd Heol y Celyn, sydd i agor ym mis Medi 2024, ac ehangu Ysgol Gyfun Rhydywaun gyda bloc addysgu newydd a chyfleusterau chwaraeon. Bydd yr adeilad ysgol newydd arfaethedig i wasanaethu datblygiad tai Llanilid yn gweithredu fel estyniad i Ysgol Gynradd Dolau (ddwy iaith) yn y lle cyntaf. Yn ogystal, mae CBSRhCT hefyd wedi ymrwymo i gynyddu ansawdd ac argaeledd darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar trwy fuddsoddi'n sylweddol mewn nifer o ddarpariaethau trwy gynlluniau ariannu amrywiol, megis Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn gymorth i sicrhau continwwm iaith o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg a sicrhau bod y galw cynyddol bosibl ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei fodloni.<br><br>Pe bai’r cynnig yma'n mynd yn ei flaen, bydd pennaeth yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei annog i hyrwyddo a chyfeirio rhieni/gwarcheidwaid at y lleoliad blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg newydd ar safle’r ysgol. Yn ogystal, bydd Ysgol Gynradd Dolau yn cael ei hannog i gynnal y ddarpariaeth sy’n cael ei chyflwyno yn yr ysgol ar hyn o bryd er mwyn ehangu’r cynnig sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg i blant y blynyddoedd cynnar yn yr ardal yma o’r fwrdeistref sirol.<br><br>Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy ddosbarthu adnoddau hyrwyddo megis y llyfryn ‘Bod yn Ddwyieithog’ a thaflenni darpariaeth trochi yn y Gymraeg i deuluoedd sy’n byw yn yr ardal ac mewn lleoliadau cyhoeddus lleol a hefyd eu cyfeirio at yr adran addysg cyfrwng Cymraeg ar wefan y Cyngor sy’n cynnwys rhagor o wybodaeth sy'n hybu'r Gymraeg ac addysg Gymraeg yn RhCT. |

| **Cam 2 – Asesu Effaith**<br><br>Yma mae angen i chi ystyried yr effaith, y dystiolaeth ac unrhyw gamau rydych chi'n eu cymryd i wella. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw'r cyfleoedd i bobl sy'n dewis byw eu bywydau a manteisio ar wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn israddol i'r hyn sydd ar gael i'r rhai sy'n dewis gwneud hynny yn Saesneg, yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.<br><br>Sylwch fod asesiad effaith ar wahân ar gyfer cydraddoldeb a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol y mae'n rhaid eu cwblhau hefyd ar gyfer cynigion polisi.<br><br>Cofiwch y gallai effeithiau cadarnhaol i rai grwpiau fod yn niweidiol i eraill - hyd yn oed ymhlith grwpiau Cymraeg. Ystyriwch yr effeithiau ar wahanol grwpiau. Er enghraifft, mae'n bosibl bod cynnig o fudd i ddysgwyr Cymraeg, ond nid i siaradwyr Cymraeg.<br><br>**Mae Asesiadau blaenorol o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg i'w gweld ar Inform trwy glicio yma.** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?** | | | | |
| | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol / negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.** | **Pa dystiolaeth sydd gyda chi i ategu'r farn hon?** | **Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
| **Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg**<br><br>e.e. staff, trigolion ac ymwelwyr<br><br>Hawliau siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â'r Cyngor ac i staff ddefnyddio'r | Niwtral | Mae gan bawb sy'n byw yng Nghymru yr hawl i siarad â siaradwr Cymraeg wrth ymdrin ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r cyhoedd. Bydd CBSRhCT yn parhau i gydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'i safonau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi strategaeth bum mlynedd sy'n amlinellu ei gamau gweithredu i hwyluso a hyrwyddo'r Gymraeg. Mae modd i unrhyw un sy'n dymuno gohebu â'r Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg wneud hynny. | • Nododd Arolwg Defnydd Iaith Llywodraeth Cymru (2013 – 2015) fod dros hanner yr ymatebwyr sy'n siarad Cymraeg a gwblhaodd yr arolwg yn dweud eu bod yn ceisio defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle gyda chydweithwyr ac wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd | • Os nad yw person yn gallu siarad Cymraeg, rhaid iddo alw ar gydweithiwr yn yr adeilad sy'n gallu siarad Cymraeg, os gofynnir am hynny, neu mae modd cynnig gwasanaeth galw yn ôl pan fydd siaradwr Cymraeg ar gael.<br>• Bydd yr ysgol yn cael ei hannog i wahodd grwpiau Cymraeg i ddefnyddio'r gofod sydd ar gael i gynnal unrhyw ddosbarthiadau / sesiynau grŵp Cymraeg eraill yn yr ysgol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gymraeg yn y Gwaith | | Anogir staff ac ymwelwyr â phob ysgol yn RhCT yn agored i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd a chyda disgyblion. Bydd agor ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn rhoi cyfleoedd pellach i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Gan y bydd yr ysgol newydd arfaethedig yn darparu cynnydd yn y nifer o leoedd cyfrwng Cymraeg, mae hyn yn rhoi'r cyfle i ddisgyblion gael eu haddysgu yn Gymraeg ac yn y pen draw i allu sgwrsio yn Gymraeg mewn sawl agwedd o'u bywydau.<br><br>Bydd penaethiaid Ysgol Gynradd Dolau a'r ysgol cyfrwng Cymraeg newydd arfaethedig yn cael eu hannog i ddefnyddio unrhyw ofod neu gyfleusterau defnydd cymunedol sydd ar gael i ddarparu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, er enghraifft trwy gynnal gwersi Cymraeg i oedolion neu unrhyw achlysuron, dosbarthiadau neu grwpiau Cymraeg eraill yn yr ysgol. Bydd yr ysgol newydd arfaethedig yn cael ei dylunio i fod yn gwbl hygyrch ac yn ysgol gymunedol gwbl integredig gydag ardaloedd penodol i'r gymuned leol ddefnyddio'r cyfleusterau'n ddiogel. Yn ogystal, byddan nhw'n yn cael eu hannog i gyfeirio rhieni a gwarcheidwaid at ddosbarthiadau | sicrhau bod staff, trigolion ac ymwelwyr yn cael mynediad teg at gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.<br>• Y galw am ddosbarthiadau trwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghanolfan Dysgu Gydol Oes Garth Olwg. Mae Dysgu Cymraeg Morgannwg ar hyn o bryd yn cynnal dosbarthiadau Cymraeg i oedolion ar lefelau amrywiol mewn 6 lleoliad gwahanol ledled RhCT. Dylai cyfleoedd ychwanegol i fynychu dosbarthiadau / grwpiau cymunedol wella hygyrchedd ymhellach gan y bydd gan yr adeilad gyfleusterau cymunedol pwrpasol a bydd yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010.<br>• Caiff data a gwybodaeth yn ymwneud â chyfleoedd dysgu proffesiynol ei rhannu gyda Swyddog Cynllun Strategol | • Parhau i weithio gyda'r Consortiwm i hyrwyddo'r ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol sydd ar gael i unrhyw staff sy'n chwilio am gyfleoedd i ddysgu, gwella neu uwchsgilio eu sgiliau Cymraeg.<br>• Bydd yr ymarferydd sydd wedi cwblhau'r Cynllun Sabothol Cymraeg yn ddiweddar bellach yn derbyn cymorth ôl-sabothol trwy Gonsortiwm Canolbarth y De sy'n cynnwys cyfarfodydd rhwydwaith, cyfarfod un-i-un pwrpasol gyda swyddogion datblygu a chymorth i rannu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd gyda nhw ag ymarferwyr eraill. Bydd hyn yn rhoi mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol yn yr ysgol newydd pe bai'r ymarferydd yn parhau i addysgu yn yr ysgol newydd.<br>• Sicrhau bod unrhyw gyhoeddiadau, dogfennau a gohebiaeth gan y Cyngor yn ddwyieithog gyda neges wedi'i chynnwys yn nodi y croesewir gohebiaeth yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Roedd hyn hefyd yn berthnasol i unrhyw adeiladau ysgol newydd fel bod arwyddion mewn ysgolion Saesneg yn ddwyieithog. Mae adeiladau ysgol newydd bellach hefyd yn cynnwys braille dwyieithog ar arwyddion |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Cymraeg i oedolion sy'n cael eu cynnig trwy 'Dysgu Cymraeg Morgannwg'. Bydd hyn yn cefnogi targed Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.<br><br>Mae amrywiaeth o gyfleoedd ar gael i staff sy’n gweithio mewn ysgolion yn RhCT os ydyn nhw'n dymuno gwella neu uwchsgilio eu sgiliau Cymraeg fel bod modd iddyn nhw ddefnyddio’r Gymraeg yn amlach yn y gwaith neu i’r rhai sy’n dymuno newid o addysgu mewn ysgol cyfrwng Saesneg i ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae'r Consortiwm yn hyrwyddo'r cyfleoedd dysgu proffesiynol sydd ar gael i ymarferwyr yn RhCT yn rheolaidd. Mae'r cyfleoedd yma'n cynnwys, ond dydyn nhw ddim yn gyfyngedig i'r canlynol:<br><br>• Dysgu proffesiynol anghydamserol - Cymraeg – lefelau Cyn-mynediad, Mynediad a Sylfaen<br><br>• Cyrsiau gloywi Cymraeg – dim sgiliau Cymraeg, Lefel Mynediad, Sylfaen, Uwch | Cymraeg mewn Addysg y Cyngor ac aelodau o is-grŵp Deilliant 7 y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg sydd wedi ei sefydlu i ganolbwyntio’n benodol ar y deilliant yma, sydd â’r nod o gynyddu nifer y staff addysgu sy’n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) ac addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.<br>• Caiff data a gwybodaeth sy'n ymwneud â'r Cynllun Sabothol Cymraeg ei rhannu gyda Swyddog Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor unwaith y bydd ymarferwyr wedi ymuno â'r cynllun, a bydd diweddariad pellach yn cael ei rannu ar ôl iddyn nhw gwblhau'r cynllun.<br>• Yn unol â Safonau Cymraeg Statudol y Cyngor, rhaid i unrhyw gyhoeddiadau, dogfennau a gohebiaeth gan y | ysgol gan ddarparu cyfle cyfartal o ran y Gymraeg a chydraddoldeb.<br>• Pe bai’r cynnig yn mynd yn ei flaen, bydd yr ysgol newydd arfaethedig yn cael ei hannog a’i chefnogi i gynnal nifer o ddiwrnodau pontio cyn iddi agor er mwyn caniatáu i ddisgyblion sy’n trosglwyddo o Ysgol Gynradd Dolau i’r ysgol newydd gael y cyfle i ymweld â’r ysgol nifer o weithiau i ymgyfarwyddo â'r amgylchoedd newydd. Bydd hyn yn cynnwys ymweld â’r staff addysgu newydd a hefyd gwahodd rhieni/gwarcheidwaid i fynychu diwrnodau agor a nosweithiau i ymweld â’r ysgol a siarad yn uniongyrchol â staff am unrhyw bryderon sydd gyda |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg – dau dymor lefel Sylfaen/Canolradd<br><br>Mae'r Consortiwm yn hyrwyddo'r cyfleoedd hyn trwy eu sianeli perthnasol gyda'r ysgolion. Mae Cyfadran Addysg y Cyngor yn hyrwyddo'r cyfleoedd hyn ymhellach trwy hyrwyddo gydag ysgolion yn uniongyrchol trwy gydol y flwyddyn academaidd.<br><br>Yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol yma (2023-24) mae 3 ymarferwr o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn y fwrdeistref sirol wedi cwblhau cynllun Sabothol Iaith Gymraeg dau dymor lefel Sylfaen-Canolradd, ac mae un o'r rhain yn ymarferydd yn Ysgol Gynradd Dolau. Mae'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg yn rhaglen ddatblygu ar gyfer ymarferwyr addysg sydd â'r nod o gynyddu nifer yr ymarferwyr sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, neu'n ddwyieithog. Gan fod yr ymarferydd yma wedi cwblhau'r cynllun, bydd hyn yn rhoi mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol yn yr ysgol unwaith y bydd yn trosglwyddo o ysgol ddwy iaith i ysgol cyfrwng Saesneg yn | Cyngor fod yn ddwyieithog gyda neges wedi'i chynnwys yn nodi y croesewir gohebiaeth yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi.<br>• Mae'n bosibl y bydd rhieni/gwarcheidwaid yn dymuno i'w plant aros ar safle'r ysgol bresennol am nifer o resymau, gan gynnwys cyfleustra'r lleoliad, pryderon na fydd eu plentyn/plant yn ymgartrefu yn yr ysgol newydd, amharu ar eu trefniadau presennol, cymorth gan y teulu yn lleol. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | unig, pe bai'r ymarferydd yn parhau i addysgu yn yr ysgol.<br><br>Mae CBSRhCT yn cynnig cyfleoedd i'w holl staff mewnol ym mhob gwasanaeth gael hyfforddiant am ddim i wella eu sgiliau Cymraeg. Mae'r Gwasanaethau Cymraeg yn gweithio i ddatblygu cymorth technolegol i siaradwyr Cymraeg ac i ddysgwyr fel bod modd i'r Cyngor ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n ofynnol i holl aelodau staff newydd y Cyngor ymgymryd â hyfforddiant iaith Gymraeg Lefel 1. Trwy weithio gydag Uned Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor, yn benodol y tiwtor Cymraeg mewnol, anogir pob aelod o staff i barhau i wella eu sgiliau Cymraeg y tu hwnt i Lefel 1. Bydd aelodau staff sy'n dewis gwneud hyn yn cael eu cefnogi'n llawn. Bydd hyn yn cefnogi'r cyfleoedd sydd ar gael i'r Cyngor i greu gweithlu dwyieithog gyda'r gallu i weithio darparu gwasanaethau'n ddwyieithog.<br><br>Ni all yr effaith gyffredinol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol newydd arfaethedig ond fod yn gadarnhaol. Bydd diogelu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg a thargedu | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | marchnata i lenwi'r lleoedd yn yr ysgol yn golygu y bydd mwy o blant yn yr ardal yma o'r fwrdeistref sirol yn cael cyfleoedd i siarad Cymraeg o ddydd i ddydd. Rhoddwyd ystyriaeth i'r effaith negyddol bosibl y gallai'r cynnig yma ei chael pe bai'r disgyblion sy'n defnyddio'r ffrwd addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gynradd Dolau ar hyn o bryd yn dymuno aros yn yr ysgol drwy newid i addysg cyfrwng Saesneg. Byddai hyn yn cael effaith negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac yn y pen draw ar nifer y disgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn RhCT. | | |
| **Cam 2 – Asesu Effaith**<br><br>**A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?** | | | | |
| | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol / negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.** | **Pa dystiolaeth sydd gyda chi i ategu'r farn hon?** | **Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
| **Niferoedd a / neu ganrannau'r siaradwyr Cymraeg**<br><br>e.e. Cyfleoedd Addysg / Astudio Cyfrwng Cymraeg. Cysylltiadau â | Cadarnhaol | Bydd pennaeth Ysgol Gynradd Dolau a phennaeth yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd arfaethedig yn cael eu hannog i ystyried defnyddio'r cyfleusterau cymunedol/gofod sydd ar gael yn yr ysgol i gynyddu cyfranogiad yn y Gymraeg. Bydd modd iddyn nhw | • Galw a phoblogrwydd y dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg sy'n cael eu cynnal yng Nghanolfan Dysgu Gydol Oes Garth Olwg.<br>• Caiff data a gwybodaeth yn ymwneud â 'Siarter Iaith | • Bydd yr ysgol yn cael ei hannog i wahodd grwpiau Cymraeg i ddefnyddio'r gofod sydd ar gael i gynnal unrhyw ddosbarthiadau/sesiynau grŵp Cymraeg eraill yn yr ysgol.<br>• Bydd y gweithlu yn yr ysgolion yn cael ei gefnogi gyda dysgu |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru / Strategaeth y Gymraeg Pum Mlynedd Cyngor Rhondda Cynon Taf | | gynnig y cyfle i rieni a gwarcheidwaid ac aelodau eraill o'r gymuned fynychu dosbarthiadau Cymraeg a/neu gyfleoedd eraill i'r gymuned gael cyfathrebu yn Gymraeg. Yn ogystal, byddan nhw'n cael eu hannog i gyfeirio rhieni a gwarcheidwaid at ddosbarthiadau Cymraeg i oedolion sy'n cael eu cynnig trwy 'Dysgu Cymraeg Morgannwg'. Bydd hyn yn cefnogi targed Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 a'r targedau sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg CBSRhCT.<br><br>Wrth gyfrannu at y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, ac yn unol â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg cyfredol y Fwrdeistref Sirol, mae'n holl bwysig sicrhau gweithlu digon o faint ac â gallu digonol mewn ysgolion. Er mwyn creu mwy o siaradwyr Cymraeg, mae ein system addysg yn ddibynnol ar ei gweithlu ysgolion. Rhaid i ni weithio ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol i sicrhau ein bod yn creu gweithlu ysgolion â sgiliau ieithyddol cadarn, sy'n gallu ysbrydoli ac ysgogi disgyblion | / Cymraeg Campus' ei rhannu gyda Swyddog Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor ac aelodau o is-grŵp Deilliant 5 y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg sydd wedi ei sefydlu i ganolbwyntio'n benodol ar y deilliant yma, sydd â'r nod o gynyddu cyfleoedd i ddisgyblion defnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol.<br>• Mae'r Urdd yn rhannu data gyda'r Swyddog Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn flynyddol i ddangos nifer y clybiau sy'n cael eu cynnal yn RhCT a'r niferoedd sy'n mynychu bob wythnos. Er enghraifft, ym mlwyddyn academaidd 2023-24, cafodd 13 o glybiau ar ôl ysgol eu cynnal mewn ysgolion yn RhCT gyda thua 162 o blant yn mynychu'r rhain bob wythnos. Mae Ysgol Gynradd Dolau wedi'i chynnwys yn hyn, yn ogystal ag Ysgol Llanhari ac Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant sy'n | proffesiynol parhaus, rhwydweithio, a chyfleoedd i rannu arfer gorau.<br>• Hyrwyddo a chynyddu defnydd disgyblion o'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd gyda'r holl ysgolion yn cael eu cefnogi i ennill Gwobr Efydd 'Siarter Iaith / Cymraeg Campus'. Yn fwy penodol i Ysgol Gynradd Dolau, gan fod y ddwy ffrwd addysg yn gweithio drwy'r gwobrau dyfarnu ar wahân (mae'r ffrwd cyfrwng Cymraeg yn dilyn rhaglen y Siarter Iaith a'r ffrwd cyfrwng Saesneg yn dilyn rhaglen Cymraeg Campus), mae'r rhaglen yn cynnwys ymgysylltu ag ysgol cyfrwng Cymraeg lleol i gefnogi disgyblion i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Felly, pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, bydd y ddwy ysgol yn parhau i gefnogi ei gilydd i weithio drwy'r gwobrau dyfarnu. Gan mai dim ond tua 0.4 milltir sydd rhwng yr ysgolion, mae hyn yn opsiwn hawdd i'w ddilyn. Bydd angen i'r ysgol newydd arfaethedig ddechrau o'r dechrau a bydd angen cymorth ar Ysgol Gynradd Dolau i symud ymlaen |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | addysg cyfrwng Cymraeg a'r Gymraeg.<br><br>Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cymorth wedi'i roi i hyrwyddo a chynyddu defnydd disgyblion o'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ac mewn cyd-destunau cymdeithasol. Mae hyn wedi’i wneud drwy’r Siarter Iaith (Siarter Iaith/Cymraeg Campus). Erbyn mis Gorffennaf 2024, roedd pob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg wedi derbyn y wobr efydd, 15 wedi derbyn y wobr arian a 6 wedi derbyn y wobr aur. Mae dwy ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg wedi derbyn y wobr efydd ac 1 wedi derbyn y wobr arian. Mae rhaglen 'Cymraeg Campus' wedi’i roi ar waith mewn ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Saesneg er mwyn datblygu defnydd disgyblion o’r Gymraeg. Erbyn mis Gorffennaf 2024, roedd 59 o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg wedi derbyn y wobr efydd, 21 wedi derbyn y wobr arian a 3 wedi derbyn y wobr aur. Mae cyfanswm o 6 ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg wedi derbyn y wobr efydd a 2 wedi derbyn y wobr arian.<br><br>Yn fwy diweddar, mae'r Consortiwm wedi dechrau gweithio gydag ysgolion arbennig, | ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill yn yr ardal yma o’r fwrdeistref sirol. Yn ogystal, mae'r Urdd hefyd yn cynnal gwersi nofio yng Nghanolfan Hamdden Llantrisant gydag 15 sesiwn yn cael eu cynnal a thua 90 o blant yn mynychu'n wythnosol. | i dderbyn eu gwobr arian Cymraeg Campus.<br>• Bydd pennaeth yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd arfaethedig yn cael ei annog i ymgysylltu â phartneriaid fel yr Urdd a Menter Iaith i ystyried defnyddio’r cyfleusterau cymunedol yn yr ysgol i gynnal sesiynau/dosbarthiadau/grwpiau Cymraeg er mwyn caniatáu i ddisgyblion yr ysgol ymgysylltu gyda gweithgareddau allgyrsiol trwy gyfrwng y Gymraeg. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | dosbarthiadau cymorth dysgu ac unedau cyfeirio disgyblion yn Rhondda Cynon Taf i roi rhaglen y Siarter Iaith (Cymraeg Campus) ar waith. Hyd yn hyn, mae 4 ysgol/uned arbennig wedi ennill gwobr efydd Cymraeg Campus.<br><br>O'r 80 o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn y Fwrdeistref Sirol, mae pob un wedi ymgysylltu â'r rhaglen. O blith y 13 ysgol uwchradd Saesneg yn y Fwrdeistref Sirol, nid yw 2 wedi ymgysylltu â'r rhaglen hyd yma. Dydy'r ddwy ysgol hyn ddim yn yr ardal yma o'r fwrdeistref sirol ac felly fyddan nhw ddim yn effeithio ar y cynnig. Mae pob ysgol (cyfrwng Cymraeg a Saesneg) yn yr ardal yma o'r fwrdeistref sirol yn cymryd rhan yn y rhaglen. Mae'r Consortiwm yn parhau i weithio gyda'r ysgolion cyfrwng Saesneg sydd ddim wedi ymgysylltu eto i annog pobl i ddilyn y rhaglen ac maen nhw'n gweithio'n frwd gydag ysgolion ac unedau arbennig i'w cefnogi i gyflwyno'r rhaglen. Mae'r ffrwd addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gynradd Dolau wedi derbyn gwobrau efydd ac arian 'Siarter Iaith' ac ar hyn o bryd yn gweithio tuag at ennill y wobr aur. Mae'r ffrwd addysg cyfrwng Saesneg yn Ysgol Gynradd Dolau wedi derbyn | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | eu gwobr efydd 'Cymraeg Campus' ac yn gweithio tuag at ennill y wobr arian. Bydd y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Consortiwm yn cyfrannu at niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg CBSRhCT.<br><br>Pe bai'r cynnig yma'n mynd yn ei flaen ac ysgol cyfrwng Cymraeg newydd â lle i 480 o ddisgyblion yn agor, bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gyfanswm nifer y lleoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ac felly'n cynyddu nifer y darpar ddisgyblion yn y fwrdeistref sirol. Bydd hyn hefyd yn arwain at ragor o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol cyfrwng Cymraeg. Er enghraifft, mae'r Urdd yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol mewn ysgolion a rhai sydd ddim mewn ysgolion ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau fel y rhain y tu allan i oriau ysgol yn rhoi cyfleoedd pellach i ddisgyblion ddefnyddio'r iaith yn eu bywyd o ddydd i ddydd, gan gryfhau eu sgiliau Cymraeg a hefyd cyfrannu at y targedau sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor a tharged Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Mewn partneriaeth â'r Consortiwm a'r Urdd, cefnogir ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg i ddarparu cyfleoedd anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg a chyfleoedd dysgu Cymraeg dwys trwy brosiect Cymraeg Bob Dydd yr Urdd.<br><br>Y nod fu ymgorffori arferion ac agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg trwy gynllunio pwrpasol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith disgyblion yn yr ysgol a'r tu hwnt. Mae hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, ar draws y cwricwlwm ac mewn cyd-destunau ehangach mewn ysgolion, er mwyn sicrhau continwwm o ran eu dilyniant ieithyddol i gefnogi disgyblion yn y broses bontio rhwng cyfnodau allweddol, yn cynnig cyfle i ddisgyblion mewn addysg cyfrwng Saesneg ddefnyddio'r Gymraeg yn amlach ac yn fwy hyderus, gan ddod yn fwy cyfarwydd â defnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd bob dydd, a allai yn ei dro arwain at ddiddordeb mewn dod yn rhugl yn yr iaith | | |
| **Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg** | Cadarnhaol | Mae gan y Gymraeg statws swyddogol a deddfwriaeth mewn lle sy'n rhoi hawliau i siaradwyr | • Caiff data a gwybodaeth sy'n ymwneud â Siarter | • Parhau i weithio gyda'r Consortiwm i hyrwyddo a |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| e.e. statws, defnyddio Gwasanaethau Cymraeg, defnyddio'r Gymraeg yn rhan o fywyd beunyddiol yn y gwaith ac yn y gymuned<br><br>Mynd ati'n weithredol i annog a hyrwyddo defnydd o'n gwasanaethau Cymraeg i weld cynnydd yn y galw dros amser. | | Cymraeg dderbyn gwasanaethau Cymraeg. Yr her yw ehangu'r cyfleoedd i bobl allu defnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd bob dydd trwy greu'r amodau cywir i ddisgyblion newydd o bob oed ddatblygu a defnyddio eu sgiliau o'r cyfnodau cynharaf a thrwy bob cam o addysg. Er mwyn sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, bydd yr ysgol yn parhau i dderbyn cefnogaeth er mwyn ennill gwobr arian Siarter Iaith Cymraeg Campus.<br><br>Mae strategaeth uchelgeisiol Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru yn galw am newidiadau pellgyrhaeddol a gwthio ffiniau i gynyddu'r niferoedd sy'n dysgu ac yn defnyddio'r Gymraeg. Er mwyn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, mae angen i bob awdurdod lleol drawsnewid sut mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu i bob disgybl. Bydd y Cyngor yn parhau i hyrwyddo'r gefnogaeth sydd ar gael trwy garfan trochi yn y Gymraeg y Cyngor i unrhyw rieni/gwarcheidwaid sy'n dymuno trosglwyddo eu plentyn/plant o addysg cyfrwng Saesneg i addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd rhieni a | Iaith Cymraeg Campus ei rannu gyda Swyddog Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor bob chwarter drwy Swyddog y Gymraeg y Consortiwm.<br>• Mae'r galw am ddarpariaeth drochi ar draws y Fwrdeistref Sirol wedi bod yn gadarnhaol iawn. Ers i'r ddarpariaeth agor i ddisgyblion ym mis Medi 2023, mae 17 o ddisgyblion wedi cael mynediad at y cymorth ar draws 8 ysgol wahanol.<br><br>• Mae marchnata a hyrwyddo'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg yn gyffredinol yn effeithiol yn flaenoriaeth allweddol i'r Awdurdod Lleol er mwyn sicrhau ein bod ni'n gweithio tuag at gyflawni'r targedau sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Cyngor (2022-2032).<br>• Mae cynrychiolwyr o'r holl feysydd gwasanaeth rydyn ni wedi cyfeirio atyn nhw (Cymraeg, Ieuenctid, Hamdden, Cerddoriaeth, | chynyddu defnydd disgyblion o'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd gyda'r holl ysgolion cyfrwng Saesneg yn cael eu cefnogi i ennill gwobrau 'Cymraeg Campus'.<br>• Hyrwyddo'r opsiynau sydd ar gael i ddisgyblion sy'n dymuno trosglwyddo o addysg cyfrwng Saesneg i addysg cyfrwng Cymraeg drwy rannu gwybodaeth ac adnoddau.<br>• Bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gyda'r garfan marchnata fewnol a'r ddwy ysgol sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig yma i wneud y mwyaf o bob dull effeithiol o farchnata a hyrwyddo er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn yr ardal yma o'r fwrdeistref sirol yn cael ei marchnata mor eang â phosibl.<br>• Bydd Swyddog Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor a Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor yn parhau i weithio gyda staff yn fewnol a sefydliadau partner Cymraeg i annog a hwyluso twf hirdymor i'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | gwarcheidwaid a disgyblion sy'n penderfynu trosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg yn cael eu cefnogi'n llawn gan Garfan Trochi yn y Gymraeg y Cyngor. Bydd hyn yn cefnogi'r Cyngor i gynyddu niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol yn unol â'r targedau sydd wedi'u hamlinellu yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.<br><br>Mae agor ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn RhCT yn darparu ffordd amhrisiadwy o gynyddu cyfleoedd i hybu'r Gymraeg. Bydd llenwi'r lleoedd sydd ar gael yn yr ysgol yn flaenoriaeth allweddol ac felly, bydd hyrwyddo'r ysgol newydd mor eang ac effeithiol â phosibl yn ganolbwynt i'r Awdurdod Lleol. Mae rhai o'r dulliau yma'n cynnwys, ond dydyn nhw ddim yn gyfyngedig i'r canlynol:<br><br>• Dosbarthu adnoddau hyrwyddo megis llyfryn 'Bod yn Ddwyieithog' y Cyngor a thaflenni darpariaeth trochi yn y Gymraeg i deuluoedd sy'n byw yn yr ardal ac mewn lleoliadau cyhoeddus lleol fel bod teuluoedd sy'n byw yn yr ardal yma'n effro i'r arlwy cyfrwng Cymraeg lleol a'r cymorth sydd | Celfyddydau a Diwylliant) yn aelodau o grŵp Deilliant 5 Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor, sy'n canolbwyntio'n benodol ar greu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol, ond hefyd yn ehangu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau ar draws pob maes gwasanaeth ac yn y gymuned ehangach. Caiff gwybodaeth ei rannu gyda Swyddog Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor ac aelodau'r is-grŵp yn ystod cyfarfodydd chwarterol. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ar gael i gael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg<br>• Creu taflenni hyrwyddo newydd sy'n hyrwyddo'r ysgol newydd arfaethedig yn benodol, i'w darparu i ddatblygwyr tai yn yr ardal yn ychwanegol at yr adnoddau a nodir uchod. Bydd y rhain yn cael eu cynnwys mewn pecynnau gwerthu tai i ddarpar brynwyr tai newydd<br>• Ffurfio perthynas rhwng yr ysgol newydd arfaethedig a datblygwyr tai yn yr ardal fel bod modd i ddarpar brynwyr tai newydd gysylltu’n uniongyrchol â’r ysgol i drefnu ymweliadau ac ateb unrhyw bryderon sydd gan rieni/gwarcheidwaid<br>• Hyrwyddo achlysuron Cymraeg lleol megis achlysuron i blant cyn oed ysgol a theuluoedd a fydd yn dechrau o fis Hydref 2024. Bydd cyfanswm o 6 achlysur yn cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn academaidd mewn lleoliadau amrywiol yn RhCT<br>• Hyrwyddo’r sesiynau am ddim i fabanod a rhieni/gwarcheidwaid sydd ar gael ledled RhCT drwy Cymraeg i Blant. Yn fwy penodol i’r ardal yma o’r fwrdeistref sirol yw’r sesiynau sy'n cael eu cynnal ym Mhont-y- | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | clun a'r sesiwn newydd sydd newydd ddechrau yn Llanharan<br>• O safbwynt ehangach y Cyngor, trefnu ymgyrchoedd marchnata a'u rhoi ar waith ar draws llwyfannau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor gan ddefnyddio'r ystod o fideos sydd wedi eu creu i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn RhCT.<br><br>Bydd Ysgol Gynradd Dolau yn cael ei hannog a'i chefnogi i barhau i gynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol trwy'r Cylch Meithrin Flourish Dolau er mwyn cynyddu'r cynnig blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn yr ardal yma o'r fwrdeistref sirol.<br><br>Mae Strategaeth Pum Mlynedd Hybu'r Gymraeg y Cyngor (2022 - 2027) ynghyd â'i gynllun gweithredu atodol wedi'u hystyried er mwyn annog a hwyluso twf hirdymor i'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r strategaeth yn amlinellu ymrwymiad y Cyngor i weithio tuag at weledigaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, cynyddu'r defnydd o'r iaith yn y gweithle, a hynny trwy wasanaethau'r Cyngor a thrwy'r gymuned a chreu amodau | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ffafriol. Mae Gwasanaethau Cymraeg, Gwasanaethau Ieuenctid, Gwasanaethau Hamdden, Gwasanaethau Celfyddydau a Diwylliannol a Gwasanaethau Cerdd Cyngor Rhondda Cynon Taf i gyd yn gweithio mewn modd rhagweithiol tuag at ddatblygiad parhaus y cyfleoedd i ddisgyblion a'r gymuned ehangach ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys, ond dydyn nhw ddim yn gyfyngedig i'r canlynol:<br><br>Gwasanaethau Cymraeg:<br>• Datblygu deunyddiau i’w darparu i staff arlwyo mewn ysgolion i'w cynorthwyo â'u sgiliau Cymraeg a'r defnydd o Gymraeg achlysurol yn yr ysgolion.<br>• Archwilio dichonolrwydd gosod rhaglenni digidol dysgu/cefnogi cyfrwng Cymraeg ar ddyfeisiau pob aelod o staff i gefnogi eu sgiliau a’u datblygiad ieithyddol.<br><br>Gwasanaethau Ieuenctid:<br>• Cynnal teithiau i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg i roi cyfleoedd iddyn nhw i ddefnyddio’r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Creu deunyddiau hyrwyddo i'w gosod mewn clybiau ieuenctid ledled y Fwrdeistref Sirol.<br>• Gweithio mewn partneriaeth gyda'r Urdd a Menter Iaith i ddatblygu Fforymau Ieuenctid Cymraeg ym mhob ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg ynghyd â champysau Coleg y Cymoedd.<br><br>Gwasanaethau Hamdden:<br>• Gweithio gyda'r Urdd i gyflwyno gweithgareddau chwaraeon ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg. Ymchwilio i ffyrdd o ymgorffori'r un ddarpariaeth mewn ysgolion cyfrwng Saesneg trwy ddefnyddio model dwyieithog.<br>• Gweithio gyda Menter Iaith i ddatblygu cyfleoedd i gyflwyno'r Gymraeg mewn sesiynau hamdden.<br>• Gweithio'n agos gyda'r clwb chwaraeon Cymraeg cyntaf sydd newydd ei sefydlu yn RhCT, sydd wedi'i leoli yn Aberdâr.<br><br>Y Gwasanaethau Celfyddydau a Diwylliannol:<br>• Cydweithio gyda Gwasanaethau Ieuenctid ar raglen o ddarpariaeth ledled | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | lleoliadau diwylliannol a chymunedol i annog defnydd o'r Gymraeg ac ymgorffori'r Gymraeg mewn achlysuron cymunedol.<br><br>Gwasanaethau Cerdd:<br>• Ymgysylltu ag ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg i annog rhyngweithio â'r gwasanaethau cerdd ar gyfer disgyblion sy'n dangos unrhyw fath o ddawn offerynnol. Cefnogi'r disgyblion yma a'u hannog i gymryd rhan yn yr Eisteddfod.<br><br>Bydd y Cyngor yn parhau i sicrhau aliniad clir â'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg Bum Mlynedd. Mae'r ymrwymiad yma i hybu'r Gymraeg, cynyddu nifer y dysgwyr Cymraeg a gwella sgiliau Cymraeg staff a disgyblion ar draws ysgolion Rhondda Cynon Taf yn cael ei ailddatgan yng Nghynllun Strategol Addysg y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chynhwysiant ar gyfer 2022 – 2025. | | |

**Cam 2 – Asesu Effaith**

**A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?**

| | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol,** | **Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol /** | **Pa dystiolaeth sydd gyda chi i ategu'r farn hon?** | **Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu** |
|---|---|---|---|---|

| | negyddol neu niwtral? | negyddol neu niwtral ar y Gymraeg. | | gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol? |
|---|---|---|---|---|
| **Cydymffurfio â <u>Safonau Cymraeg Statudol y Cyngor</u>**<br><br>e.e. cynyddu neu leihau gallu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Ystyried hawliau siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â'r Cyngor ac i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith. | Cadarnhaol | Bydd yr holl brosesau sy'n gysylltiedig â'r cynnig yma'n cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.<br><br>Lle bo modd, bydd yr ysgol, y Cyngor a'r Consortiwm yn cefnogi staff cynorthwyol ysgolion, gweithwyr cymorth dysgu ysgolion a staff addysgu i gymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu proffesiynol yn y Gymraeg ar lefelau amrywiol er mwyn diwallu anghenion a nodwyd. | • Bydd trefniadau cytundebol yn sicrhau bod pob ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn ddwyieithog a bydd pob gohebiaeth gyhoeddus mewn perthynas â'r cynigion yma'n cael ei hanfon yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf.<br>• Nifer y staff sydd wedi'u lleoli yn yr ysgol (staff addysgu a staff cynorthwyol) sy'n cymryd rhan mewn cyrsiau Cymraeg ar wahanol lefelau i wella eu sgiliau ieithyddol. Nifer y staff sy'n gwneud cais ar gyfer Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De er mwyn datblygu sgiliau Cymraeg ymarferwyr a'u gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. | • Sicrhau bod pob swyddog sy'n ymwneud â'r cynigion yma'n effro i Safonau'r Gymraeg Statudol y Cyngor a sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau hyn.<br>• Anogaeth i gymryd rhan mewn cyrsiau sgiliau Cymraeg ar wahanol lefelau.<br>• Yn ystod y misoedd diwethaf, cynhaliodd Uned Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor gyfres o sesiynau cryno ar bynciau amrywiol yn ymwneud â'r safonau. Cafodd y sesiynau hyn eu hyrwyddo i bob aelod o staff yn fewnol ac anogwyd pawb i fynychu'r sesiynau i gryfhau eu dealltwriaeth a'u hymwybyddiaeth o gydymffurfio â'r safonau hyn. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.** | Cadarnhaol | Mae'r cynnig yma'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Bydd creu ysgol cyfrwng Cymraeg newydd sbon yn yr ardal yma o’r fwrdeistref sirol yn darparu cynnig mwy cyfartal o addysg ac yn rhoi cyfle cytbwys i rieni a gwarcheidwaid ystyried addysg cyfrwng Cymraeg fel opsiwn i’w plentyn/plant.<br><br>Trwy roi ymgyrch farchnata wedi’i thargedu ar waith sy’n hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg, mae CBSRhCT yn gobeithio y bydd rhieni a gwarcheidwaid plant sy’n byw yn yr ardal yma'n ystyried dewis yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd arfaethedig yn dilyn cau ffrwd addysg cyfrwng Cymraeg Ysgol Gynradd Dolau.<br><br>Bydd yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd arfaethedig yn elwa ar y | • Mae'r Rhaglen Band B Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu'n cynnwys ystod eang o ysgolion, cyfrwng Cymraeg a Saesneg, mewn gwahanol rannau o'r Fwrdeistref Sirol i ddarparu gwell cyfleusterau a mynediad teg i addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg dda. | • Bydd yr ysgol yn cael ei hannog i wahodd grwpiau Cymraeg i ddefnyddio’r gofod sydd ar gael i gynnal unrhyw ddosbarthiadau / sesiynau grŵp Cymraeg eraill yn yr ysgol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu drwy gyflwyno ysgol yr 21ain ganrif newydd sbon gyda chyfleusterau o'r radd flaenaf. Diben y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yw sicrhau bod yna ysgolion da, fel bod gyda phob plentyn a pherson ifanc, waeth beth yw eu hangen dysgu, fynediad teg i addysg o safon dda trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd y cynnig yma yn ein helpu i gyflawni'r diben yma. Bydd Ysgol Gynradd Dolau yn cael ei chefnogi yn y gwaith parhaus o hyrwyddo'r Gymraeg yn yr ysgol. Gan y byddai'r ysgolion yn gyfagos i'w gilydd (0.4 milltir i ffwrdd) bydd hyn yn rhoi'r cyfle i ddisgyblion cyfrwng Saesneg yr ysgol barhau i gael mynediad a chael cyfleoedd i ymgysylltu â disgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

**Cam 3 – Gwella'r cynnig**

Ar ôl rhestru camau gweithredu yn adran 2 a allai liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol – nodwch isod pa rai y byddwch chi'n eu cynnwys yn y cynnig polisi a phwy fydd yn gyfrifol amdanyn nhw.

Ystyriwch hefyd a yw'r cynnig yn angenrheidiol? A fyddai modd bodloni'r galw heb unrhyw ddatblygiadau newydd? A fyddai modd defnyddio darpariaeth arall sy'n bodoli eisoes? Ble dylai'r datblygiad fod?

| Beth rydych chi'n mynd i'w wneud? | Pryd ydych chi'n mynd i'w wneud? | Pwy sy'n gyfrifol? |
|---|---|---|
| Cefnogi penaethiaid Ysgol Gynradd Dolau a'r ysgol newydd arfaethedig i hybu defnydd cymunedol a thrydydd parti o'r cyfleusterau at ddiben cyflwyno ystod o gyfleoedd trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda chefnogaeth sefydliadau Cymraeg fel Dysgu Cymraeg Morgannwg, Menter Iaith a'r Urdd i gynorthwyo gyda hyrwyddo'r Gymraeg. | Unwaith y bydd canlyniad yr ymgynghoriad wedi'i gwblhau a phenderfyniad wedi'i wneud. | Ysgolion yr 21ain Ganrif RhCT. |
| Gweithio gyda'r ddwy ysgol a Dysgu Cymraeg Morgannwg i gynnal dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion yn yr ysgol berthnasol. Sicrhau bod rhieni a gwarcheidwaid a'r gymuned ehangach yn cael eu cyfeirio at y dosbarthiadau trwy farchnata a hyrwyddo trwy wefan y Cyngor a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol corfforaethol, a thrwy'r gymuned leol. | Unwaith y bydd canlyniad yr ymgynghoriad wedi'i gwblhau a phenderfyniad wedi'i wneud. | Ysgolion yr 21ain Ganrif RhCT.<br>Dysgu Cymraeg Morgannwg |
| Hyrwyddo'r gefnogaeth sydd ar gael i ddisgyblion sy'n dymuno trosglwyddo o addysg cyfrwng Saesneg i addysg cyfrwng Cymraeg trwy farchnata a hyrwyddo darpariaeth trochi yn y Gymraeg y Cyngor yn effeithiol. Bydd hyn yn cael ei wneud trwy ddosbarthu taflenni hyrwyddo a rhoi ymgyrch farchnata ar waith trwy wefan y Cyngor a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol corfforaethol gan ddefnyddio'r fideos sydd wedi eu creu i hyrwyddo'r gwasanaeth. | Gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd - mae taflenni hyrwyddo yn parhau i gael eu dosbarthu mewn achlysuron lleol. Bydd ymgyrch farchnata yn cael ei lansio ym mis Gorffennaf 2024 i hyrwyddo'r gwasanaeth ymhellach. | Carfan Trochi yn y Gymraeg RhCT. |

| | | |
|---|---|---|
| Bydd y gweithlu yn yr ysgolion yn parhau i gael ei gefnogi gyda dysgu a rhwydweithio proffesiynol parhaus, gan hwyluso cyfleoedd i rannu arfer gorau. Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De i fynd ati i farchnata a hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael i ymarferwyr sy'n dymuno gwella eu sgiliau Cymraeg. | Parhaus – rydyn ni'n gweithio'n agos gyda'r Consortiwm i hyrwyddo'r cyfleoedd proffesiynol sydd ar gael ac yn annog ymarferwyr i ystyried y cyfleoedd yma. | Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De. |
| Bydd y Consortiwm yn parhau i weithio gydag ysgolion i hyrwyddo rhaglen y Siarter Iaith i gynyddu defnydd disgyblion o'r Gymraeg ym mhob ysgol, gan gynnwys ysgolion ac unedau arbennig. | Yn parhau – mae'r Consortiwm yn parhau i gefnogi ysgolion sy'n ymwneud â'r rhaglen i symud ymlaen er mwyn cyflawni eu gwobrau. Mae'r Consortiwm yn parhau i wneud ymdrechion i ymgysylltu â'r 2 ysgol sy'n weddill sydd ddim wedi ymgysylltu eto. | Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De. |
| Cydlynydd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor i weithio ar y cyd gyda phartneriaid i ddatblygu a gweithredu strategaethau yn unol â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor i gefnogi'r gwaith o gyflawni gweledigaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr, a chyfrannu at ddatblygu strategaethau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol. | Parhaus – mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn gynllun deng mlynedd; byddwn ni'n parhau i weithio gyda phartneriaid ar ddatblygu a gweithredu strategaethau yn unol â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. | Swyddog Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg RhCT. |

| | | |
|---|---|---|
| Bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gyda'r garfan marchnata fewnol a'r ddwy ysgol sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig yma i wneud y mwyaf o bob dull effeithiol o farchnata a hyrwyddo er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn yr ardal yma o'r fwrdeistref sirol yn cael ei marchnata mor eang â phosibl. | Unwaith y bydd canlyniad yr ymgynghoriad wedi'i gwblhau a phenderfyniad wedi'i wneud. | Ysgolion yr 21ain Ganrif RhCT. |

Os yw ffyrdd o leihau'r effaith wedi cael eu nodi ond dydyn nhw ddim yn bosibl, esboniwch pam. Rhowch ddigon o fanylion am ddata neu ymchwil sydd wedi arwain at eich rhesymu.

| **Beth gafodd ei nodi?** | **Pam nad yw'n bosibl?** |
|---|---|
| Dd/B. | Dd/B. |

**<u>Cam 4 – Adolygu</u>**

Ar gyfer pob cynnig polisi, p'un a yw'n Benderfyniad Allweddol Arwyddocaol ai peidio, mae'n ofynnol ichi anfon yr asesiad yma ymlaen at yr Uned Gwasanaethau Cymraeg – <u>SwyddogIaith@rctcbc.gov.uk</u> a'r garfan Ymgynghori ac Ymgysylltu – <u>ymgynghori@rctcbc.gov.uk</u> yn y lle cyntaf i gael rhywfaint o arweiniad ac adborth cychwynnol.

Yn rhan o'r Broses Asesu Effaith ar y Gymraeg, Cydraddoldeb a Dyletswydd Economaidd Gymdeithasol, dylai pob cynnig sy'n diwallu'r diffiniad o Benderfyniad Allweddol Arwyddocaol gael eu cyflwyno gerbron y Panel Adolygu Swyddogion. Mae swyddogion o bob rhan o Wasanaethau'r Cyngor yn rhan o'r panel yma ac mae'n gweithredu fel ffrind beirniadol cyn i'ch adroddiad gael ei gwblhau a'i gyhoeddi ar gyfer cymeradwyaeth gan y Cabinet / Uwch Reolwyr y Cyngor.

Os yw'r cynnig yma'n cael ei ystyried yn Benderfyniad Allweddol Strategol, anfonwch eich asesiad effaith sydd wedi'i gwblhau (Camau 1>6), ynghyd â chynnig/adroddiad polisi a'r adroddiad ymgynghori i'r cyfeiriad e-bost <u>BusnesyCyngor@rctcbc.gov.uk</u> fel bod modd trefnu Panel Adolygu i drafod eich cynnig. <u>Darllenwch ein dogfen ganllaw</u> i gael rhagor o wybodaeth am beth yw Penderfyniad Allweddol Sylweddol.

Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses yma fel y gallwn ddangos sut rydyn ni wedi ystyried ac ymgorffori ystyriaethau cynaliadwy o ran y Gymraeg lle bynnag y bo modd. Sicrhewch eich bod chi'n diweddaru'r adrannau perthnasol isod ar y cyd â'r adrannau perthnasol.

| **Sylwadau'r Uned Gwasanaethau Cymraeg** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw welliannau a wnaed yn dilyn adborth gan yr Uned Gwasanaethau Cymraeg** |
|---|---|---|
| Hoffai'r Uned Gwasanaethau Cymraeg ddiolch i swyddogion am y manylion sydd wedi'u cynnwys hyd yma yn yr asesiad effaith hwn, ac am ystyried sut mae'r cynigion hyn yn cyd-fynd â nodau ehangach y Cyngor a'r gwaith i gyflawni ein rhwymedigaethau statudol o ran y Gymraeg. | 04.09.2024 | Diweddariadau a wnaed yn unol â sylwadau a wnaed gan Wasanaethau Cymraeg CBSRhCT. |

<table>
<tr><td>Tra bod datblygu ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn rhan o ddatblygiad Llanilid ac yn agos at safle presennol Ysgol Gynradd Dolau, wrth gwrs, yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar nifer y rhieni sy’n dewis addysg cyfrwng Cymraeg i’w plant, mae angen inni gydnabod yn fwy penodol y bydd newid Ysgol Gynradd Dolau i ysgol uniaith Saesneg yn cael rhywfaint o effaith negyddol, a fydd yn negyddu rhai o agweddau cadarnhaol cynllun Llanilid. Gallai’r asesiad effaith egluro’n fanylach beth fydd effaith negyddol tebygol tynnu’r ffrwd Gymraeg o Ysgol Gynradd Dolau, a sut y byddwn ni'n gweithio i liniaru’r effeithiau hyn yn effeithiol. Mae angen inni gydnabod hefyd bod gadael Ysgol Gynradd Dolau fel ysgol â dwy ffrwd iaith yn opsiwn (hyd yn oed os nad yn un a ffefrir), a byddai’n cyd-fynd yn well â thelerau Bil y Gymraeg ac Addysg arfaethedig Llywodraeth Cymru, sydd o blaid sefydlu mwy o ysgolion Cymraeg ac ysgolion dwy ffrwd iaith, ymhlith pethau eraill. Byddai’n dda cydnabod hyn fel opsiwn ac egluro’n fanwl pam nad yw’n ymarferol yn yr achos yma.</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Sylwadau Swyddogion y Panel Adolygu</td><td>Dyddiad Ystyried y Cynnig</td><td>Disgrifiad byr o unrhyw newidiadau a wnaed yn dilyn ystyriaethau gan Swyddogion y Panel Adolygu</td></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Sylwadau'r Adran Ymgynghori</td><td>Dyddiad Ystyried y Cynnig</td><td>Disgrifiad byr o unrhyw welliannau a wnaed yn dilyn yr ymgynghoriad</td></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Cam 5 – Monitro, Gwerthuso ac Adolygu</u><br><br>Sut byddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig, a gyda phwy?</td></tr>
<tr><td colspan="3">Bydd Carfan Ysgolion yr 21ain Ganrif Cyfarwyddiaeth Addysg a Chynhwysiant CBSRhCT yn monitro’r cynnig yma gan gynnal cyfarfodydd adolygu rheolaidd.</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Cam 6 – Crynodeb o'r Effeithiau gan y Cynnig</u><br><br>Darparwch grynodeb o'r asesiad effaith isod. Yn y crynodeb, rhaid cynnwys rhai o'r prif effeithiau cadarnhaol a negyddol ynghyd â throsolwg o'r</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| camau gweithredu ers yr asesiad effaith a gafodd eu cymryd i gyfrannu at effeithiau mwy cadarnhaol yn well. Dylai'r crynodeb yma gael ei gynnwys yn adran Ystyriaethau o'r Gymraeg yn nhempled adroddiad Uwch Reolwyr y Cyngor/y Cabinet. Dydy hi ddim yn addas ysgrifennu 'gweler yr adroddiad llawn yn Atodiad x' yn unig yng nghorff yr adroddiad. Rhaid cyhoeddi'r asesiad effaith ochr yn ochr â'r adroddiad. | | | |
| *Cwblhawyd Asesiad Effaith ar y Gymraeg ac mae'r prif ganfyddiadau fel a ganlyn:*<br><br>Y cynnig yw sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer disgyblion 3 i 11 oed yn rhan o ddatblygiad safle tai Llanilid a'r cynnig arfaethedig i newid cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Dolau o ysgol dwy iaith i ysgol cyfrwng Saesneg.<br><br>Bydd gan yr ysgol newydd le ar gyfer 480 o ddisgyblion oedran ysgol statudol ynghyd â 60 o leoedd ar gyfer disgyblion oed meithrin. Bydd adeilad yr ysgol yn gwbl hygyrch ac yn addas ar gyfer addysgu a dysgu yn yr 21ain ganrif, gyda mannau dysgu modern a hyblyg i bob disgybl, gan gynnwys neuadd fawr/ardal fwyta ac ardal adnoddau dysgu amlbwrpas i ganiatáu cyflwyno'r Meysydd Dysgu a Phrofiad yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru. Yn ogystal â hyn, bydd gan yr ysgol newydd leoedd ychwanegol ar gyfer ymyriadau anghenion dysgu ychwanegol (ADY), mannau awyr agored gwell i gefnogi'r ystod lawn o weithgareddau cwricwlwm ac ardaloedd mewnol ac awyr agored i'w defnyddio gan y gymuned leol. Bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.<br><br>Bydd Ysgol Gynradd Dolau yn dod yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ar yr un pryd gyda ffrwd Gymraeg disgyblion yr ysgol yn trosglwyddo i'r ysgol newydd. Bydd cymorth unigol wedi'i deilwra ar gael gan Garfan Trochi i'r Gymraeg y Cyngor ar gyfer disgyblion yn y ffrwd addysg Saesneg yn Ysgol Gynradd Dolau sy'n dymuno trosglwyddo i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol newydd.<br>Bydd hyn yn cyfrannu tuag at gyflawni'r targedau sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor drwy gynyddu nifer y disgyblion sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>Nod CBSRhCT yw gwreiddio arferion ac agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg trwy gynllunio pwrpasol i hybu defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith disgyblion o fewn a thu allan i ysgolion. Mae hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm ac mewn cyd-destunau ehangach mewn ysgolion, er mwyn sicrhau continwwm o ddilyniant ieithyddol i gefnogi disgyblion yn y broses bontio rhwng cyfnodau allweddol, yn cynnig cyfle i bob disgybl ddod yn gwbl ddwyieithog ac yn cyd-fynd â Chwricwlwm i Gymru 2022. Bydd Ysgol Gynradd Dolau yn parhau i gael ei hannog a'i chefnogi i wneud hyn trwy gyflawni Siarter Iaith 'Cymraeg Campus', sef fframwaith i hybu a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.<br><br>Gallai hyn gyfrannu at nod uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siarad Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. | | | |
| **Cam 7 – Cymeradwyo** | | | |
| **Enw'r Swyddog sy'n cwblhau'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg** | Lisa Howell | **Enw Cyfarwyddwr Gwasanaeth:** | Andrea Richards |
| **Swydd** | Rheolwr Busnes a Threfniadaeth Ysgolion – Ysgolion yr 21ain Ganrif. | **Rydw i'n argymell bod y cynnig:** | **Yn cael ei roi ar waith heb unrhyw newidiadau.** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **(Tynnwch sylw at y penderfyniad)** | |
| | | | Yn cael ei roi ar waith gan ystyried y camau lliniaru sydd wedi'u hamlinellu. |
| | | | Yn cael ei wrthod oherwydd effeithiau negyddol anghymesur ar y Gymraeg. |
| **Llofnod** | | **Llofnod y Cyfarwyddwr Gwasanaeth** | |
| **Dyddiad** | 05.09.2024 | **Dyddiad** | 05.09.2024 |